# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd
Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023
Amser: 09.03 - 10.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13776

## Hybrid, preifat

### Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Tom Giffard AS (Cadeirydd)<br>Joyce Watson AS (Cadeirydd)<br>Vikki Howells AS<br>Altaf Hussain AS<br>Adam Price AS<br>Jack Sargeant AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc) |

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon

Croesawodd y Cyd-Gadeirydd, Joyce Watson AS, yr Aelodau i'r cyfarfod.

### 2 Cynllun Trin Cyfathrebiadau

Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan gynrychiolwyr tîm Newyddion a Chyfathrebu Comisiwn y Senedd.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Trafodaeth a Chamau Nesaf

Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur briffio yn amlinellu'r opsiynau ynghylch cynghorwyr arbenigol ac academyddion i gefnogi gwaith y Pwyllgor.

Trafododd yr aelodau opsiynau ar gyfer y camau nesaf y gellid eu cymryd cyn i Ymchwiliad Covid y DU gyhoeddi ei adroddiad ar ei Fodiwl 1 ddechrau haf 2024.

Cytunodd y Pwyllgor i gyfarfod nesaf yn gynnar yn 2024 ag academyddion ac arbenigwyr, er mwyn cael cyngor ar faterion perthnasol sy'n codi yn sgil modiwlau Ymchwiliad Covid y DU.

At hynny, bydd y Pwyllgor yn cael sesiwn friffio ar y fframwaith paratoadau sifil yng Nghymru i'n helpu i ddeall y maes hwn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. At hynny, cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi datganiad o fwriad yn y cyfamser, er mwyn amlinellu gwaith arfaethedig y Pwyllgor.